| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **10 Gorffennaf 2017** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2016/17** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson<br>Pennaeth Addysg (Dros Dro)** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

## 1 Cyfrifon Terfynol 2016/17

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2017 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2017 -

| | canran | 31/03/2016 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2017 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 6.91% | £2,479,441 | -£460,927 | £2,018,515 | 5.57% |
| Uwchradd | 2.37% | £791,815 | +£24,972 | £816,787 | 2.42% |
| Arbennig | 2.74% | £65,314 | -£22,084 | £43,230 | 1.54% |
| **Cyfanswm** | **4.66%** | **£3,336,570** | **-£458,039** | **£2,878,532** | **3.96%** |

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi gostwng £458,039 yn ystod 2016/17 i £2,878,532 sy'n cyfateb i 3.96% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 17 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2016/17 gwerth £420,471 o'i gymharu gydag 16 ar ddiwedd 2015/16 gwerth £447,692.

- 12 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg £40,655 (amrywio rhwng £1,080 a £9,812)
- 4 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg £290,897 (amrywio rhwng £39,083 a £116,177)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg £88,919

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd.

2.3 Mae colofn 'F' ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon.

## 3. Casgliad

3.1 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi lleihau o £1,586,885 (66 ysgol) ar 31/03/2016 i £1,285,447 (44 ysgol) ar 31/03/2017.

3.2 Yn sgil yr angen i ysgolion cynradd ddarganfod arbedion yn 2017/18, rhagwelir lleihad pellach ym malansau ysgolion cynradd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**